

Cylch Gorchwyl Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Diben y Bwrdd yw cynnig arweinyddiaeth, trosolwg a chyfeiriad i raglen ar y cyd rhwng Llywodraeth Leol a Phlismaona yng Nghymru, gan ymwneud â phartneriaid eraill, gyda'r nod o sicrhau bod arweinyddiaeth effeithiol yn cael ei darparu ar y cyd i gefnogi gweithio mewn partneriaeth yn lleol a fydd, yn ei dro, yn cefnogi cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth llywodraethu i Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.

Amcanion y Bwrdd yw:

- Darparu arweinyddiaeth genedlaethol a rennir i Awdurdodau Lleol a Phlismaona yng Nghymru wrth ymdrin a mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol, gan gynnwys adnabod blaenoriaethau newydd a rennir ar gyfer gweithredu a sicrhau bod isadeiledd cefnogol yn ei le ar gyfer polisi, ymarfer a phartneriaeth er mwyn galluogi dulliau cyflenwi llwyddiannus, yn lleol ac yn rhanbarthol, fel sydd fwyaf priodol;
- Cytuno ar raglen waith yn flynyddol ac yn yr hirdymor er mwyn helpu i gyflwyno datganiad o weledigaeth a rennir ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, yn cynnwys blaenoriaethu'r prif faterion diogelwch cymunedol y dylid mynd i'r afael â nhw a/neu eu hyrwyddo yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac ystyried capasiti a chyllid i ddatblygu materion ar lawr gwlad;
- Cytuno ar raglen waith ar gyfer y prif faterion diogelwch cymunedol y dylid mynd i'r afael â nhw a/neu eu hyrwyddo yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, yn cynnwys capasiti a chyllid, a rhoi cyfeiriad a throsolwg i waith Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
- Derbyng y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar y cynnydd gan Bennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel a llywio'r gwaith a'r cyfeiriad yn y dyfodol, fel sy'n berthnasol;
- Hyrwyddo dull cydlynol yn genedlaethol ac yn lleol, sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru, Uned Atal Trais, Gweithredu'n Gynnar gyda'n Gilydd, Canolbwynt Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Uned Gyswllt yr Heddlu, a chyrrff perthnasol eraill neu gyrff sy'n eu holynu i bwysleisio pa mor bwysig yw dulliau atal ac ymyrryd yn fuan a sicrhau eu bod yn

cael eu hymgorffori'n ymarferol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru;

- Diweddarau ein gilydd am faterion cyfredol a materion newydd a allai gael effaith ar gyflwyno gwaith diogelwch cymunedol ym mhob cwr o Gymru;
- Cynghori, hysbysu a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU (Y Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) a chyrrff cynrychioladol ym maes llywodraeth leol, plismona a chyfiawnder troseddol ayb, ar faterion sy'n berthnasol i ddiogelwch cymunedol o safbwynt Plismona a Llywodraeth Leol.
- Canfod, dathlu a hyrwyddo arferion effeithiol ac annog pobl i fabwysiadu, uwchraddio a phrif ffrydio cynlluniau sydd wedi profi 'eu bod yn gweithio';
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ym maes diogelwch cymunedol, cyflwyno sylwadau a rennir ar faterion sy'n bryder cyffredinol, fel y bo'n briodol, ac amlygu cyfleoedd i hyrwyddo'r datganiad o weledigaeth a rennir ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru a ddaeth i'r amlwg yn sgil Adolygiad 2017.

Aelodaeth:

- Cynrychiolydd/wyr o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
- Cynrychiolydd/wyr o Brif Gwnstabiliaid Cymru
- Cynrychiolydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu – Gogledd Cymru
- Llefarydd CLILC dros Ddiogelwch Cymunedol
- Cynrychiolwyr rhanbarthol Gweithrediaeth CLILC ar gyfer De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed Powys a Gwent
- Prif Weithredwr CLILC
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLILC
- Cynrychiolydd Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymru
- Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel
- Cynrychiolydd/wyr o Isadrannau Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Cynrychiolydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
- Cynrychiolydd o'r Trydydd Sector (Cadeirydd Cyfiawnder Cymunedol Cymru)
- Cynrychiolydd Swyddogion Diogelwch Cymunedol (Cadeirydd WACSO)
- Cynrychiolydd yr Uned Atal Trais
- Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir gwahodd aelodau eraill os bydd pawb yn cytuno, yn cynnwys ar gyfer cyfarfodydd penodol neu eitemau ar y rhaglen.

Dull Gweithredu'r Bwrdd:

- Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.
- Bydd y Bwrdd yn cael ei gyd-gadeirio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Llefarydd CLILC dros Ddiogelwch Cymunedol.
- Gellir llunio penderfyniadau rhwng cyfarfodydd drwy ddulliau electronig.
- Bydd Aelodau'r Bwrdd yn Uwch-swyddogion Cyfrifol ar gyfer blaenoriaethau a rhaglenni unigol y Bwrdd.
- Gall Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel gysylltu ag Aelodau unigol o'r Bwrdd am gyngor a chymorth ar faterion gweithredol rhwng cyfarfodydd y Bwrdd.

Bydd Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddol yn unol â'r cytundeb rhwng CLILC a Phlisma yng Nghymru. Bydd yr holl bapurau'n cael eu rhannu un wythnos galendr cyn y cyfarfod, lle bo hynny'n bosibl.

Bydd y Bwrdd yn adrodd ar gynnydd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i Fwrdd Partneriaeth Plisma Cymru, Plisma yng Nghymru (sy'n cynnwys pob Comisiynydd a Phrif Gwnstabl), fforymau gwleidyddol a swyddogion CLILC a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru.

Bydd disgwyl i aelodau'r bwrdd ddatgan unrhyw gysylltiad a allai godi yn ystod gweithrediad y Bwrdd a'i raglen waith.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- feithrin dulliau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- cael gwared â rhwystrau er mwyn cyflwyno'r Rhwydwaith yn effeithiol, hyrwyddo'r modd y caiff ei fabwysiadu a'i ddefnyddio
- cynnal ffocws y Bwrdd a'r Rhwydwaith bob amser o ran y cwmpas, y canlyniadau a'r manteision y cytunwyd arnynt
- monitro a rheoli'r ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Rhwydwaith ac sy'n hanfodol i'w lwyddiant.

Bydd Cyd-gadeiryddion y Bwrdd yn:

- gosod y dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd ynghyd â Thîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel
- cytuno ar y rhaglen fel y gellir ei rhannu, ynghyd ag unrhyw bapurau, 7 diwrnod cyn y cyfarfodydd
- cynrychioli'r Bwrdd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol fel bo'r angen.

Bydd Tîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel yn:

- darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd

- rhannu'r rhaglen a'r papurau 7 diwrnod cyn y cyfarfod
- cynnal y rhestr aelodaeth a rhestr o'r rhai sy'n mynychu.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn ymrwymo i:

- fynychu pob un o gyfarfodydd y Bwrdd sydd wedi eu trefnu neu enwebu cynrychiolydd addas i fynychu ar eu rhan
- cefnogi'r Bwrdd a'r Rhwydwaith yn gyfan gwbl o fewn y meysydd gwaith a thu hwnt
- rhannu deunydd cyfathrebu a gwybodaeth berthnasol gyda holl aelodau'r Bwrdd
- llunio penderfyniadau prydlon a gweithredu er mwyn sicrhau y gall gwaith a phrosiectau barhau ac nad oes unrhyw oedi
- rhoi gwybod i aelodau'r Bwrdd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, os bydd unrhyw fater yn codi y credir a fydd yn effeithio ar ddatblygiad y Rhwydwaith neu waith arall y Bwrdd
- mynychu pob cyfarfod ac enwebu dirprwy os bydd angen.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn disgwyl:

- y bydd pob aelod yn cael gwybodaeth gyflawn, gywir ac ystyrlon yn brydlon
- y byddan nhw'n cael digon o amser i lunio penderfyniadau allweddol
- y rhoddir gwybod iddyn nhw am risgiau posibl a materion a allai effeithio ar y prosiectau a'r rhaglen waith, wrth iddyn nhw ddod i'r amlwg
- trafodaethau agored a gonest, heb ddefnyddio honiadau camarweiniol
- 'gwiriadau iechyd' parhaus i wirio statws ac 'iechyd' cyffredinol y rhwydwaith.

Rheoli Fersiwn

Fersiwn	Newidiadau a wnaed	Gan Bwy	Cylchredeg
2	<p>Wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu bod y Rhwydwaith newydd yn ei le, y swyddogaeth Ysgrifenyddol a'r gefnogaeth sydd ei hangen ynghylch penderfyniadau a wneir y tu allan i gyfarfodydd. Amllder y cyfarfodydd wedi ei newid i bob chwarter.</p> <p>Wedi diweddarau'r aelodaeth i gynnwys Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, WACSO a'r Uned Atal Trais.</p> <p>Nodyn wedi ei gynnwys am ddatgan cysylltiad.</p>	SC/ER	NA & AM